# Deddf Cymwysterau Cymru 2015

**2015 dccc 5**

## RHAN 4

CYMWYSTERAU BLAENORIAETHOL A CHYMERADWYO CYMWYSTERAU

*Darpariaeth atodol sy'n berthnasol i bob cymeradwyaeth*

### 22 Amodau cymeradwyo

(1) O ran cymeradwyo ffurf ar gymhwyster —

(a) rhaid iddo fod yn ddarostyngedig i amod o fewn is-adran (2), a

(b) mae i fod yn ddarostyngedig i unrhyw amodau eraill y caiff Cymwysterau Cymru eu gosod naill ai ar adeg rhoi'r gymeradwyaeth neu wedi hynny.

(2) Mae amod o fewn yr is-adran hon yn amod sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffurf ar gymhwyster sydd i'w dyfarnu fel cymhwyster a gymeradwywyd gael ei nodi â rhif cymeradwyo.

(3) Mae rhif cymeradwyo yn rhif (gyda neu heb lythrennau neu symbolau) sydd wedi ei ddyrannu i gymhwyster gan Gymwysterau Cymru.

(4) Dim ond os yw ffurf ar gymhwyster wedi ei ddyfarnu â'i rhif cymeradwyo yn unol â'r amod a grybwyllir o fewn is-adran (2) y'i dyfernir fel cymhwyster a gymeradwywyd.

(5) Caiff yr amodau y caiff Cymwysterau Cymru eu gosod wneud darpariaeth wahanol, mewn cysylltiad â dyfarnu'r un cymhwyster, at ddibenion gwahanol (gan gynnwys ymhlith pethau eraill drwy gyfeirio at yr amgylchiadau pan fo cymhwyster yn cael ei ddyfarnu, neu at y personau neu'r disgrifiadau o bersonau y dyfernir cymhwyster iddynt).

(6) Os yw Cymwysterau Cymru, ar ôl cymeradwyo ffurf ar gymhwyster i'w dyfarnu gan gorff cydnabyddedig—

(a) yn gosod amodau newydd y mae'r gymeradwyaeth i fod yn ddarostyngedig iddynt, neu

***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 22. (See end of Document for details)*

(b) yn amrywio'r amodau y mae'r gymeradwyaeth i fod yn ddarostyngedig iddynt,

rhaid iddo roi hysbysiad i'r corff dyfarnu am yr amodau newydd (neu'r amodau sydd wedi eu hamrywio).

(7) Rhaid i'r hysbysiad—

(a) pennu'r dyddiad y bydd yr amodau newydd (neu'r amodau fel y maent wedi eu hamrywio) yn cael effaith, a

(b) rhoi rhesymau dros y newid.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 22 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 60(2)**

**I2** A. 22 mewn grym ar 21.9.2015 gan O.S. 2015/1687, **ergl. 2** (ynghyd ag erglau. 3-12)

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Cymwysterau Cymru 2015, Adran 22.